Medi 2018

Effaith Ymchwil a Deddfwrfeydd

Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) yw system y DU ar gyfer asesu ansawdd ymchwil yn sefydliadau addysg uwch y DU. Mae REF yn asesu tair elfen: ansawdd allbynnau academaidd; eu heffaith y tu hwnt i'r byd academaidd; a'r amgylchedd sefydliadol sy'n cefnogi ymchwil. Yn y papur hwn ceir trosolwg o effaith ymchwil mewn deddfwrfeydd. Cafodd ei ysgrifennu i gynorthwyo gwaith y pedwar corff cyllido addysg uwch yn y DU wrth iddynt ddatblygu meini prawf asesu ar gyfer y Fframwaith nesaf yn 2021.

Crynodeb

- Soniwyd am ymgysylltiad sylweddol â Senedd y DU yn 20 y cant o astudiaethau achos effaith REF2014.
- Gall ymchwil ddod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, a gellir mynd ati'n fwriadol i ddod o hyd iddi, neu gall gael ei hanfon gan sefydliadau allanol sy'n gweithredu'n rhagweithiol.
- Mae'r effeithiau a geir o ymgysylltu â deddfwrfeydd yn cynnwys dylanwadu ar bolisi llywodraeth, ar sefydliadau allanol ac ar ddeddfwrfeydd eu hunain (megis prosesau mewnol a datblygu sgiliau).
- Mae ymchwil yn fwy tebygol o gael effaith os oes ganddi naratif perswadiol a chredadwy ynghylch effaith ymchwil.
- Gall tystiolaeth o effaith gynnwys dyfyniadau, tebygrwydd o ran ieithwedd, data'r cyfryngau cymdeithasol, cofnodion cyfarfodydd ac allbynnau a gynhyrchir ar y cyd sy'n dangos perthynas waith agos.

Y cefndir

Mae ymchwil sy'n berthnasol, yn gredadwy ac yn annibynnol yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu a dadleuon o ansawdd. Cafodd ei defnyddio gan wahanol bobl drwy'r deddfwrfeydd ac at lawer o ddibenion, gan gynnwys gwaith pwyllgorau dethol, ymholiadau etholwyr, a pharatoi ar gyfer dadleuon. Mae'r papur hwn yn disgrifio gwaith deddfwrfeydd a'r ffyrdd y defnyddir ymchwil. Mae'n rhoi enghreifftiau o effaith ymchwil ac mae'n awgrymu tystiolaeth y gellir ei defnyddio i ddangos effaith ar ddeddfwrfeydd. Mae'n seiliedig ar astudiaeth yn 2017 o'r defnydd o ymchwil yn Senedd y DU,[1] ar ddadansoddiad o astudiaethau achos o effaith o REF2014, ac ar safbwyntiau staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau ymchwil a gwybodaeth yn Senedd y DU, Senedd yr Alban, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chynulliad Gogledd Iwerddon.

Gwaith deddfwrfeydd

Deddfwrfeydd y DU yw Senedd y DU yn San Steffan, Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Mae deddfwrfeydd yn wahanol i lywodraethau, ac un o'u prif swyddogaethau yw craffu ar benderfyniadau a pholisïau llywodraeth, ei chynigion ar gyfer deddfwriaeth, a'i chyllideb. Mae gwahaniaethau pwysig yn y gweithdrefnau a'r derminoleg a ddefnyddir yn neddfwrfeydd y DU, ond mae llawer o'r egwyddorion wrth ymdrin ag unrhyw ddeddfwrfa yn y DU yn debyg.

Sut y mae deddfwrfeydd yn defnyddio ymchwil?

Mae llawer o fathau o dystiolaeth ac o sawl ffynhonnell yn hanfodol i sicrhau gwaith craffu a dadleuon o ansawdd.[2] Mae hyn yn cynnwys ystadegau a data, gwybodaeth gan felinau trafod neu lobïwyr, gwybodaeth ymarferwyr y rheng flaen, ymgynghoriadau cyhoeddus, a thystiolaeth ar sail ymchwil.

Mae ymchwil yn cael ei defnyddio gan wahanol bobl yn y deddfwrfeydd:

- Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad ('Aelodau')
- Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan Aelodau ('staff Aelodau')
- Staff sy'n gweithio mewn unedau ymchwil yn y pleidiau gwleidyddol
- Staff y ddeddfwrfa, yn cynnwys staff pwyllgorau, staff llyfrgelloedd neu wasanaethau ymchwil, a staff y Swyddfa Seneddol Gwyddoniaeth a Thechnoleg (POST).

Gellir defnyddio ymchwil i gefnogi gwaith Aelodau mewn pwyllgorau (e.e. pwyllgorau ad hoc, sefydlog, statudol, Cyfarfod Llawn, Biliau - gweler Ffigur 1), mewn dadleuon

(e.e. yn y Siambr), mewn Grwpiau Trawsbleidiol neu Grwpiau Seneddol Hollbleidiol, i gynorthwyo etholwyr, wrth gyflwyno cwestiynau i'r Llywodraeth, neu i helpu wrth baratoi ar gyfer cyfarfodydd neu areithiau cyhoeddus.

Mae Aelodau'n gweithio mewn byd cymhleth sy'n newid yn gyflym, ac yn aml maent yn cael eu llethu gan ormod o wybodaeth. Gall eu bod yn arbenigo mewn rhai meysydd a'u bod yn gyffredinolwyr gwybodus mewn meysydd eraill. Yn aml, mae gofyn iddynt ateb cwestiynau penodol, mae amser yn fain, ac mae angen gwybodaeth ddibynadwy arnynt am faterion heriol a chymhleth o ystod o ffynonellau.

I fod yn fwyaf defnyddiol, dylai ymchwil fod:
- Yn berthnasol i'r mater dan sylw neu gwestiwn sy'n cael ei gyflwyno a'i ddarparu mewn modd amserol;
- Yn gredadwy (o ffynhonnell adnabyddus neu ffynhonnell y gellir ymddiried ynddi, a/neu wedi'i chynhyrchu gyda dulliau credadwy neu briodol);
- Wedi'i chynhyrchu'n annibynnol neu'n dryloyw ynghylch symiau a ffynonellau cyllid neu gymorth.

Yn gyffredinol, mae pobl mewn deddfwrfeydd yn defnyddio ymchwil sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chynnal ymchwil sylfaenol newydd oherwydd y terfynau amser y maent yn gweithio iddynt (er bod eithriadau). Mae'r ffocws ar ailddehongli a dadansoddi ymchwil o'r fath a sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno'n glir ac yn gryno.

Ffigur 1: Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd - Lansio'r Adroddiad, 2015.

Sut y mae ymchwil yn bwydo i ddeddfwrfeydd?

Gellir bwydo ymchwil yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fel rhan o broses seneddol benodol neu'n llai ffurfiol, mewn ymateb i gais neu drwy ei darparu'n rhagweithiol. Yn benodol, gellir bwydo ymchwil:
- Yn uniongyrchol mewn ymateb i geisiadau, drwy gyswllt rhagweithiol heb ofyn amdano neu drwy gyswllt wedi'i dargedu, drwy seminarau neu weithdai a fynychir gan Aelodau, eu staff neu staff deddfwrfa.
- Fel rhan o brosesau seneddol penodol fel ymchwiliadau pwyllgorau, gwaith craffu ar ddeddfwriaeth neu'r gyllideb, ystyried deisebau cyhoeddus, a dadleuon y Cyfarfod Llawn.
- Drwy brosesau seneddol anffurfiol megis cyflwyniadau i, neu mewn seminarau a gynhelir gan, Grwpiau Hollbleidiol neu Grwpiau Trawsbleidiol.
- Drwy gyfryngwyr yn y ddeddfwrfa, megis y llyfrgelloedd a'r gwasanaethau ymchwil mewnol, neu staff pwyllgorau sy'n cynhyrchu briffiadau, yn ystyried pynciau posibl i ganolbwyntio arnynt, yn trefnu digwyddiadau, ac yn cynnal cymrodoriaethau.
- Yn anuniongyrchol, drwy gyfryngau'r prif ffrwd neu'r cyfryngau cymdeithasol; drwy sefydliadau trydydd parti allanol megis elusennau neu gyrff anllywodraethol, etholwyr, neu sefydliadau lobïo.

Effaith mathau o ymchwil mewn deddfwrfeydd

Gall ymchwil gael sawl math gwahanol o effaith, gan gynnwys effaith uniongyrchol neu gyfrannol ar bolisi neu arfer, effaith anuniongyrchol neu gysyniadol ar ddealltwriaeth o faterion, ac effaith adeiladu capasiti ar ddatblygu sgiliau technegol neu bersonol. Mae blychau 1-4 yn amlinellu enghreifftiau o wahanol effeithiau ym mhob un o ddeddfwrfeydd y DU.

Blwch 1: Enghraifft o effaith ymchwil yng Nghymru
Mae Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn treialu cynllun cymrodoriaeth academaidd i ddod ag uwch-academyddion i'r Gwasanaeth Ymchwil i weithio ar bwnc penodol sy'n ymwneud â'u maes arbenigedd. Fel rhan o'r cynllun hwn, cynhyrchodd academydd o Brifysgol Abertawe wybodaeth a brîff ar hunanladdiad a hunan-niweidio a helpodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i ddiffinio cwmpas ei ymchwiliad i effeithiolrwydd strategaeth atal Llywodraeth Cymru, 'Siarad â fi 2'.

Blwch 2: Enghraifft o effaith ymchwil yn San Steffan
Bu academyddion o Brifysgol Durham yn gweithio gyda'r tîm Ystadegau Cymdeithasol a Chyffredinol yn Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin i ddatblygu Archwiliwr Etholaethol. Mae'r Archwiliwr yn darparu ystadegau cymdeithasol ac economaidd ar etholaethau seneddol y DU ac yn galluogi cymhariaeth rhwng etholaethau a rhanbarthau.

Blwch 3: Enghraifft o effaith ymchwil yn yr Alban
Mae Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe) wedi trefnu rhaglen o seminarau yn gynnar yn y bore ar gyfer Aelodau, eu staff a staff deddfwriaethol. Nod hyn yw datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion ac annog ymgysylltiad a dadl ymhlith sbectrwm o bobl. Gwahoddir academyddion i gyflwyno cynigion i siarad mewn seminarau, gan amlaf ar effaith Brexit ar wahanol feysydd polisi. Ers mis Mai 2018, cynhaliwyd 17 o seminarau, lle'r oedd 33 o academyddion yn briffio Aelodau. Roedd cyfanswm y presenoldeb ar draws yr holl seminarau bron yn 800, gan gynnwys 136 o Aelodau.

Blwch 4: Enghraifft o effaith ymchwil o Ogledd Iwerddon
Cyfres o seminarau blynyddol yw'r 'Gyfres o Seminarau Cyfnewid Gwybodaeth' (KESS) sy'n galluogi academyddion i gyflwyno canfyddiadau ymchwil ar faterion sy'n berthnasol i lywodraethu yng Ngogledd Iwerddon. Fe'i cyflwynir ar y cyd gan Wasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth y Cynulliad (RaISe) a thair prifysgol yng Ngogledd Iwerddon. Mae enghreifftiau o effaith ymchwil sy'n deillio o KESS yn cynnwys academydd o Brifysgol y Frenhines, Belfast, yn cyflwyno brîff KESS ym mis Mawrth 2014, a oedd y papur sylfaen yn llywio'r Cynulliad a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol yn ei 'Adolygiad o Fenywod mewn Gwleidyddiaeth'.

Mae ymchwil yn gallu, ac yn aml yn, gwneud gwahaniaeth sylweddol i waith deddfwrfa. Gall ddylanwadu ar ddeddfwrfeydd yn uniongyrchol, neu fod yn llwybr i gael effaith ar weithredwyr eraill, gan gynnwys y Llywodraeth a sefydliadau allanol eraill. Ceir enghreifftiau o'r mathau o effaith y gellir eu cyflawni drwy ddeddfwrfeydd isod.

Polisi Llywodraeth

Gall seneddwyr ddefnyddio ymchwil i ddatblygu cynigion ar gyfer polisïau newydd neu i awgrymu newidiadau i bolisïau cyfredol. Er enghraifft, yn dilyn brîff ar lygredd microblastig morol gan POST, helpodd ymchwiliad y Pwyllgor Archwiliad Amgylcheddol yn 2016 i effaith amgylcheddol microblastigau i gynhyrchu deiseb gyhoeddus a dylanwadodd ar waharddiad y llywodraeth ar ficrobeli plastig.[3]

Gwariant cyhoeddus

Gall ymchwil helpu seneddwyr wrth wirio cynlluniau ar gyfer trethi newydd a sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n deg ac yn effeithlon. Cafwyd enghraifft o effaith deddfwrfeydd ar gynlluniau'r llywodraeth ar gyfer gwariant cyhoeddus yn 2015 pan gynhaliwyd pleidlais gan Dŷ'r Arglwyddi i oedi toriadau i gredydau treth, gan arwain at y llywodraeth yn tynnu ei chynigion yn ôl. Nodwyd ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid yn y ddadl.[4]

Sefydliadau allanol

Gall ymchwil helpu i amlygu materion sy'n peri pryder i seneddwyr a chyfrannu dadansoddiad newydd o faterion sy'n bodoli eisoes. Er enghraifft, yn 2017 comisiynodd Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban (SPICe) Gymdeithas yr Alban ar gyfer Gwyddoniaeth Forol (SAMS) i gynhyrchu adroddiad yn archwilio'r dystiolaeth wyddonol ar raddfa effeithiau amgylcheddol gwahanol y diwydiant ffermio eogiaid ac ymagweddau tuag at liniaru'r effeithiau hynny.[5] Defnyddiodd y Pwyllgor Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir yr adroddiad a nodwyd tystiolaeth helaeth gan academyddion SAMS yn ei sesiynau tystiolaeth.[6] Mae hyn wedi arwain at Sefydliad Cynhyrchwyr Eogiaid yr Alban yn cyhoeddi mwy o ddata am lefel y llau môr ar ffermydd eogiaid.[7]

Deddfwriaeth

Swyddogaeth graidd deddfwrfeydd yw gwneud deddfwriaeth. Gellir defnyddio ymchwil gan seneddwyr i ddatblygu cynigion ar gyfer deddfwriaeth newydd drwy Filiau Aelodau Preifat, neu i gynorthwyo gyda'r gwaith craffu ar ddeddfwriaeth a llywio gwelliannau i filiau eraill, megis y rhai a gyflwynir gan y Llywodraeth. Er enghraifft, cyflwynodd academyddion o bum prifysgol (Prifysgol Caint, Prifysgol Fetropolitan Manceinion, Prifysgol y Frenhines Belfast, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Ulster) friffiadau ar ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud â Chyfraith a Pholisi Erthylu fel rhan o Gyfres o Seminarau Cyfnewid Gwybodaeth Gogledd Iwerddon (gweler Blwch 4). Tynnodd yr Aelodau sylw at y briffiadau hyn yn ystod dadl Cyfarfod Llawn y Cynulliad ym mis Tachwedd 2016.

Dadleuon seneddol

Gall ymchwil helpu i roi sylw i faterion i seneddwyr ganolbwyntio arnynt mewn dadleuon, neu helpu i ail-lunio trafodaethau ynghylch pynciau a chyfrannu dealltwriaeth neu wybodaeth newydd. Er enghraifft, gwnaeth ymchwil gan academydd ym Mhrifysgol Bryste fwydo i reolau'r Llywodraeth ar ddeunydd pacio tybaco a ddaeth i rym ym mis Mai 2016. Gwnaeth digwyddiadau yn Senedd y DU yn 2013 helpu i godi ymwybyddiaeth o ymchwil ar ddeunydd pacio tybaco safonol, a chadw'r pwnc ar yr agenda seneddol.

Pwyllgorau

Gall ymchwil helpu seneddwyr a staff i nodi pynciau ymchwiliadau, llunio ffocws ymchwiliadau, llywio cwestiynau i dystion, ac ategu argymhellion. Er enghraifft, yn 2017, darparodd academydd ym Mhrifysgol Caerdydd sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith craffu Pwyllgor Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Cymru ar raglen Llywodraeth Cymru i ddileu TB buchol.[8] Amlygodd hyn yr heriau sy'n wynebu'r proffesiwn milfeddygol yn sgil y penderfyniad yn y DU i ymadael a'r Undeb Ewropeaidd a'i oblygiadau posibl i TB buchol yng Nghymru.

Sgiliau pobl mewn deddfwrfeydd

Gall ymchwil roi sgiliau dadansoddol neu dechnegol newydd i seneddwyr, eu staff a staff deddfwrfeydd, neu adnewyddu'r sgiliau sydd ganddynt eisoes. Er enghraifft, mae Tŷ'r Cyffredin, Senedd yr Alban a Chynulliad Cymru yn darparu cyrsiau datblygu proffesiynol ar gyfer Aelodau a staff a gyflwynir ar y cyd ag academyddion. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant ar faterion gweithdrefnol craidd, megis deddfwriaeth a threfnu cyllideb, yn ogystal ag ar weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella sgiliau craidd, megis cyflwyno araith, cwestiynu'n effeithiol a chyfathrebu ar-lein.

Gwasanaethau a gweithdrefnau seneddol

Gellir defnyddio ymchwil i newid prosesau neu wasanaethau cyfredol, neu nodi gwasanaethau newydd i'w darparu. Er enghraifft, arweiniodd cyflwyniadau tystiolaeth a sgyrsiau anffurfiol rhwng academydd yn SOAS, Prifysgol Llundain a staff deddfwrfa, at argymhelliad Pwyllgor Gweinyddol Tŷ'r Cyffredin yn 2014 i ddisodli'r arolwg blynyddol o Aelodau a Staff yr Aelodau gyda chyfres fanwl o gyfweliadau. Hyfforddodd yr academydd staff seneddol ar gyfweld ansoddol ac mae wedi parhau i ddarparu cyngor ar gwmpas a dyluniad prosiectau dilynol.

Ansawdd gwaith seneddol

Gall ymchwilwyr adolygu briffiadau drafft fel cyfoedion er mwyn sicrhau eu bod yn gywir, yn gytbwys ac yn ddiduedd. Er enghraifft, caiff academyddion eu galw'n aml i adolygu briffiadau drafft a gynhyrchir gan wasanaethau ymchwil deddfwrfeydd gwahanol ar faterion polisi, deddfwriaeth a phynciau dadleuol, a chyn dadleuon seneddol.

Ffigur 2: Effaith ymchwil ar ddeunydd pacio tybaco safonol

Gwnaeth digwyddiadau yn Senedd y DU yn 2013 helpu i godi ymwybyddiaeth o ymchwil ar ddeunydd pacio tybaco safonol, a ddaeth i rym yn 2016.

Deddfwrfeydd a REF2014

Cyflwynwyd dros 6,000 o astudiaethau achos effaith i Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 (REF2014). Cyfeiriodd llawer o'r rhain at ymgysylltiad sylweddol â phob un o'r pedwar o ddeddfwrfeydd y DU. Dangosodd dadansoddiad gan POST fod un o bob pum astudiaeth achos yn sôn am ymgysylltu â Senedd y DU.[9] Roedd academyddion wedi cymryd rhan mewn 23 o wahanol ffyrdd, gan amlaf drwy gyfeirio atynt hwy neu eu hymchwil a thrwy gyflwyno tystiolaeth - naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar (gweler Ffigur 3). Dywedodd yr academyddion eu bod hefyd wedi ymgysylltu â 22 rhan wahanol o Senedd y DU (gweler Ffigur 4). Er ei fod yn galonogol, canfu astudiaeth gan POST ar y defnydd o dystiolaeth ymchwil yn Senedd y DU fod y sector academaidd ymhell y tu ôl i'r trydydd sector o ran cyflwyniadau tystiolaeth i bwyllgorau.[1] Mae Senedd yr Alban hefyd wedi cynnal dadansoddiadau ar astudiaethau achos effaith REF2014[10] ac roedd dadansoddiad King's College Llundain o effaith prifysgolion Cymru yn dangos yr effaith drwy ymgysylltu â Chynulliad Cymru.[11]

Ffigur 3: Sut yr ymgysylltodd academyddion â Senedd y DU yn REF2014



Ffigur 4: Rhannau o Senedd y DU yr ymgysylltodd yr academyddion â hwy yn REF2014



Dangos effaith ymchwil

Mae'n anodd dod o hyd i fesurau effaith y cytunir arnynt yn gyffredin ac sy'n wrthrychol.[12] Nid yw bob amser yn bosibl priodoli effaith ymchwil oherwydd:

- Gall effeithiau gymryd amser hir i'w gwireddu;
- Fel arfer dim ond un o lawer o ystyriaethau gwahanol yw ymchwil;
- Mae llawer o wahanol weithredwyr yn ymwneud â phrosesau deddfwrfa ac efallai na fyddant yn eglur ynglŷn â'r ymchwil a ddefnyddir ganddynt;
- Nid yw prosesau deddfwrfa bob amser yn dryloyw o ran sut y detholir ymchwil a/neu ba ymchwil sy'n cael ei defnyddio;
- Efallai na fydd gwybodaeth neu ddata i olrhain y gwaith ymchwil i ddeddfwrfeydd a thrwy ddeddfwrfeydd ar gael i'r cyhoedd neu'n cael eu casglu'n rheolaidd;
- Efallai na fydd yn bosibl dod o hyd i wybodaeth neu ddata i ddangos bod ymchwil wedi atal rhywbeth rhag digwydd, newid ffocws polisi a gytunwyd eisoes, neu ailddechrau'r ddadl ynghylch mater;
- Gellir seilio effaith ar gorff ymchwil a gronnwyd dros flynyddoedd neu hyd yn oed ddegawdau - nid oes angen ei chysylltu ag allbynnau penodol.

Mae angen naratif perswadiol a chredadwy i ddisgrifio sut y cyflawnwyd yr effaith. Gallai hyn gynnwys amlinellu'r gadwyn o weithgareddau a/neu ddigwyddiadau a ddigwyddodd (naill ai'n olynol neu ar yr un pryd), a arweiniodd at yr effaith a nodir. Mae hawliadau effaith sy'n cael eu cefnogi a'u triongli gan wahanol ffynonellau tystiolaeth yn debyg o fod yn fwy argyhoeddiadol.[13] Mae tystiolaeth i ddangos effaith yn cynnwys:

- Dyfyniadau uniongyrchol o ymchwil mewn cyhoeddiadau seneddol megis Hansard, adroddiadau pwyllgorau, cyflwyniadau tystiolaeth, neu friffiadau;
- Cyfeiriadau pendant at ymchwil sy'n defnyddio'r un iaith, neu iaith debyg, o fewn cyhoeddiadau neu drawsgrifiadau seneddol;

- Tystiolaeth o ymgysylltiad uniongyrchol, fel penodi'n Gynghorydd i bwyllgor, neu secondiad neu leoliad fel arbenigwr sefydledig neu gyd-aelod o fewn deddfwrfa;
- Dangosyddion meintiol neu ystadegau ar nifer y mynychwyr neu gyfranogwyr mewn digwyddiad ymchwil, neu ddadansoddiadau gwefan ar gyfer briffiadau ar-lein;
- Adborth ansoddol gan gyfranogwyr neu fynychwyr;
- Data i ddangos perthynas waith agos gydag Aelodau neu staff, er enghraifft, nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd, cofnodion o'r cyfarfodydd hyn, aelodaeth gweithgorau, cyd-awduro cyhoeddiadau;
- Data'r wasg neu'r cyfryngau cymdeithasol o ddigwyddiadau, gweithdai, neu ddigwyddiadau seneddol;
- Cydnabyddiaeth i ymchwilwyr ar dudalennau gwe, mewn adroddiadau neu friffiadau;
- Anecdotau anffurfiol o sgyrsiau gyda phobl o fewn deddfwrfeydd a'r tu allan iddynt;
- (Yn eithriadol) gall tystebau gan Aelodau, pwyllgorau neu swyddogion fod ar gael;
- Dadansoddiad gan sefydliadau trydydd parti o weithdrefnau neu brosesau seneddol, er enghraifft astudiaethau o basio darnau penodol o ddeddfwriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar ymgysylltu â Senedd y DU ar gael yn:
https://www.parliament.uk/research-impact

Ôl-nodiadau

1 Kenny, C., Rose, D.C., Hobbs, A., Tyler, C. & Blackstock, J. (2017) The Role of Research in the UK Parliament. Llundain, y DU, Dau Dŷ'r Senedd.
2 OECD (2015). Scientific advice for policy making: the role and responsibility of scientists. Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd: Paris, Ffrainc.
3 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (2018) World-leading microbeads ban takes effect. Llywodraeth y DU.
4 Dadl Tŷ'r Arglwyddi, 26 Hydref 2015. Rheoliadau Credydau Treth (Trothwyon Incwm a Phenderfynu ar Gyfraddau) (Diwygio) 2015. Senedd y DU.
5 Cymdeithas yr Alban ar gyfer Gwyddoniaeth Forol (2018) Review of the environmental impacts of salmon farming in Scotland. Rhifyn 1.
6 Pwyllgor yr Amgylchedd, Newid Hinsawdd a Diwygio Tir (2018) Environmental impacts of Salmon Farming Inquiry. Senedd yr Alban.
7 Sefydliad Cynhyrchwyr Eogiaid yr Alban (2018) Salmon survival and mortality data.
8 Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (2017) Cyfarfod preifat, dydd Mercher, 22 Tachwedd 2017 09.15. Cynulliad Cymru.
9 Kenny, C. (Hydref 2015) The impact of academia on Parliament. Effaith LSE Blog y Gwyddorau Cymdeithasol.
10 McQuillan (2017) Astudiaeth Achos Profiadau REF yn Senedd yr Alban. Adolygiad mewnol gan Ganolfan Wybodaeth Senedd yr Alban.
11 Hewlett, K. & Hinrichs-Krapels, S. (2017) The impacts of academic research from Welsh universities. Y Sefydliad Polisi. King's College, Llundain.
12 Terämä, E., Smallman, M., Lock, SJ, Johnson, C. & Austwick, MZ (2016) Beyond academia – interrogating research impact in the REF. PLoS ONE 11(12).
13 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (2015). Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014: Adroddiad trosolwg gan brif banel c ac is-baneli 16 i 26. CYF.

Manylion cyswllt: Senedd y DU: Swyddfa Seneddol y Gwyddorau a Thechnoleg, Sarah Foxen foxens@parliament.uk; Cynulliad Gogledd Iwerddon: Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth, Eileen Regan Eileen.Regan@niassembly.gov.uk; Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Gwasanaeth Ymchwil, Graham Winter Graham.winter@cynulliad.cymru; Senedd yr Alban: Canolfan Wybodaeth Senedd yr Alban, Simon Wakefield Simon.Wakefield@parliament.scot. Mae POST (y Swyddfa Seneddol dros Wyddoniaeth a Thechnoleg) yn ddiolchgar i'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, ac i Goleg Prifysgol Llundain, am gefnogi Adran Wyddorau Cymdeithasol POST. Hawlfraint Seneddol 2018. Prif ddelwedd © Senedd y DU/Jessica Taylor http://www.parliament.uk/site-information/copyright/use-of-parliamentary-photographic-images. Delwedd pwyllgor yng Nghymru © Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CC BY 2.0). Delwedd deunydd pacio sigaréts © Action on Smoking and Health.